MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i: Adroddiad Sir Benfro: Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant**

Rwy'n croesawu ac yn cydnabod canfyddiadau Adroddiad Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant Sir Benfro, lle y daeth arolygwyr i'r casgliad "*yn gyffredinol, mae plant yn Sir Benfro'n cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, a mathau eraill o niwed drwy ymateb amlasiantaeth digonol*."

Da oedd darllen hefyd bod gwelliannau a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys (HDP) ers arolygiadau blaenorol wedi'u cydnabod o fewn yr adroddiad.

Cyflwynwyd ymateb HDP i'r Adroddiad mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona, lle rwy'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona, ar 14 Gorffennaf 2025. Adroddodd y Prif Gwnstabl ar gynlluniau sydd ar waith gan yr Heddlu a phartneriaid, a'r camau maen nhw eisoes wedi cymryd tuag at wella, sy'n gysylltiedig â'r themâu allweddol sy'n deillio o'r adroddiad.

Yr oedd yn galonogol cael gwybod mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Plismona bod Pennaeth Diogelu Pobl Fregus Heddlu Dyfed-Powys ac arweinydd y portffolio diogelu plant wedi parhau i gyfathrebu â'r arweinwyr diogelu unigol o'r holl asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â'r Archwiliad ar y Cyd.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau bod HDP yn parhau i wneud yn siŵr bod prosesau a rennir ac integreiddio amlasiantaeth yn parhau'n rhan hanfodol o'u hymagwedd, gyda chyflwyniad panel amlasiantaeth. Bydd y panel yn galluogi goruchwyliaeth ar y cyd ar gyfer cynnal datblygu o fewn sefydliadau unigol yn erbyn y gofynion a amlinellir ar gyfer elfennau gwella o fewn yr adroddiad.

Mae'r Heddlu'n deall bod sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried yn ystod pob cam allweddol mewn ymchwiliad yn hanfodol ar gyfer sicrhau ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau y bydd mesurau perfformiad mewnol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gipio.

Mewn ymatebion blaenorol gennyf i adroddiadau ar Archwiliadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant sy'n ystyried ardal Heddlu Dyfed-Powys, rhannais wybodaeth sy'n ymwneud â gwaith a wnaed gan aelodau o'm tîm Sicrwydd, ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys, i ddatblygu proses graffu sy'n asesu llais y plentyn mewn ymchwiliadau troseddol. Bydd fy Mhanel Sicrhau Ansawdd yn parhau i adolygu troseddau a gofnodwyd yn

annibynnol, gan asesu, ymysg pethau eraill, pa un ai a yw llais y plentyn wedi'i ystyried yn ystod ymateb yr heddlu, a pha un ai a oes cofnod o ddymuniadau'r plentyn yng nghofnodion yr heddlu. Ceir rhagor o fanylion am waith fy Mhanel Sicrhau Ansawdd ar fy ngwefan.

Mae'n galonogol imi fod nifer o gryfderau wedi'u hamlygu o fewn yr adroddiad, gyda Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei gydnabod am gydweithio a llywodraethu amlasiantaeth a mewnol wrth ddiogelu plant. Mae'n galondid bod gwaith yn mynd rhagddo i wella trefniadau amddiffyn plant ledled yr ardal Heddlu. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd HDP yn erbyn yr argymhellion o fewn yr adroddiad hwn.